Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales


# Bwletin y Farchnad HCC

## Medi 2018

**Mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) newydd ryddhau'r manylion am gofrestriadau lloi ar gyfer chwe mis cyntaf eleni. Drwyddi draw, cofrestrwyd llai o loi nag yn ystod y cyfnod cyfatebol y llynedd, ond doedd braidd dim newid yn niferoedd y lloi yn y fuches odro. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau hyn.**


Cofrestrwyd 154,397 o loi cig eidion yng Nghymru yn ystod chwe mis cyntaf eleni, sef gostyngiad o 1.2% o'r naill flwyddyn i'r llall. Er gwaethaf y gostyngiad bychan hwn, cafwyd cynnydd o 5.8% (8,391 o loi) oddi ar 2015. O'r holl loi cig eidion roedd rhaniad gweddol gyfartal rhwng y lloi benyw a gwryw; roedd 49.3% o'r lloi a gofrestrwyd yn fenyw a 50.7% yn wryw. Cofrestrwyd mwy o loi ym mis Ebrill nag mewn unrhyw fis arall, sef 19,568 o loi gwryw a 19,532 o loi benyw. Roedd y niferoedd yn ystod mis Mai hefyd yn gymharol uchel. Fel canlyniad, cafodd hanner y lloi cig eidion a gofrestrwyd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn eu cofrestru naill ai ym mis Ebrill neu fis Mai. Mae hyn yn dangos fod y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yng Nghymru sy'n lloia yn y gwanwyn yn anelu at loia cyn troi allan neu'n fuan wedyn.

Cofrestriadau lloi cig eidion yng Nghymru
(Ionawr - Mehefin 2018)




Yn 2017, cafodd bron 5% o'r lloi cig eidion yng Nghymru eu cofrestru yn ystod mis Rhagfyr, sy'n dangos y potensial o gyfyngu'r cyfnod lloia mewn buchesi cig eidion. Am fod cynhyrchwyr yn chwilio am well perfformiad ar y fferm, bydd cael cyfnod lloia mwy cyfyng yn lleihau'r bwlch lloia cyfartalog ac yn gwella perfformiad y fuches o ran ffrwythlondeb ac yn lleihau costau. Argymhellir diagnosis beichiogrwydd (PD) er mwyn cynnal cyfnodau lloia cyson a'i gwneud yn haws i reoli'r fuches. Oherwydd y tywydd a gafwyd eleni, gallai ffermwyr wneud diagnosis beichiogrwydd ar eu gwartheg i wneud yn siŵr fod digon o borthiant ar gael ar gyfer y buchod cynhyrchiol.


Cofrestriadau lloi cig eidion yng Nghymru yn ôl brîd
(Ionawr - Mehefin 2018)





Yn ystod 2017, lloi Limousin a Charolais (o frîd a chroesiad) oedd bron hanner y lloi a gofrestrwyd. Er gwaethaf hyn, mae'r ystadegau'n dangos cynnydd yn y defnydd o fridiau brodorol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cofrestrwyd llai o loi Limousin, Charolais, Simmental a Blonde yn 2018 nag yn y flwyddyn flaenorol, ond cafwyd cynnydd o 18. 2% yn nifer y lloi Aberdeen Angus.

Cofrestrwyd 65,418 o loi llaeth yn ystod chwe mis cyntaf eleni, sef gostyngiad o 0.1% o'r naill flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad o 13.4% (10,132 o loi) mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol yn 2015. Pan ystyriwn gofrestriadau ledled Prydain, cofrestrwyd 364,229 o loi llaeth rhwng Ionawr a Mehefin 2018, sef 56,409 yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2015. Mae'r gostyngiad parhaus yn y niferoedd yn adlewyrchu'r ffaith fod mwy o deirw cig eidion yn cael eu defnyddio yn y fuches laeth. Cofrestrwyd 3.9% yn fwy o loi cig eidion ym Mhrydain oddi ar 2015 (yn y cyfnod o Ionawr i Fehefin); hyd at Fehefin 2018, cofrestrwyd 1.2 miliwn o loi, sef 1.4% yn llai o'r naill flwyddyn i'r llall.

Cofrestriadau lloi cig eidion a llaeth yng Nghymru (Ionawr - Mehefin 2018)




# Gwartheg




Cafwyd ychydig o gynnydd ym mis Awst ym mhrisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr. Mae prisiau gwartheg difa hefyd wedi gwella; hwn yn dilyn prisiau isel yn mis Gorffennaf oherwydd y trwybwn uchel a welwyd yn ystod y mis wrth i ffermwyr baratoi ar gyfer y misoedd nesaf.


**Prisiau'r farchnad yng Nghymru a Lloegr**; roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yn 195.9c/kg yn yr wythnos ddiweddaraf yn diweddu 01 Medi, sef 0.6c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol ac 4.4c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn ynghynt. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r bwlch rhwng prisiau eleni a'r llynedd wedi crebachu. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 01 Medi, roedd prisiau cyfartalog bustych a theirw ifainc yn is nag yn yr wythnos flaenorol, sef 191.7c/kg a 184.7c/kg yn ôl eu trefn, ond cafwyd 3.2c o gynnydd i 209.0c/kg ym mhris heffrod. Mae awgrymiadau fod y bwlch rhwng prisiau bustych yn gyffredinol a'r rhai sydd yn ateb gofynion R4L yn lledaenu am fod mwy o wartheg nad ydynt yn ateb y gofynion yn cael eu cyflwyno. Mae'n debygol fod hyn wedi dylanwadu ar y gostyngiad yn y pris a welwyd yn ystod mis Gorffennaf.





**Prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr**; cafwyd ychydig o gynnydd ym mhrisiau gwartheg dethol yn yr wythnos ddiweddaraf, yn dilyn gostyngiad yn ystod mis Gorffennaf. Roedd pris cyfartalog bustych yng Nghymru a Lloegr ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 01 Medi yn 361.1c/kg, sef 3.6c yn uwch o'i gymharu â'r wythnos flaenorol, ac 7.9c yn is na'r llynedd. Yn yr wythnos yn diweddu 01 Medi, cynyddodd y prisiau pwysau marw am heffrod a theirw ifainc hefyd 3.4c a 0.3c i 360.8c/kg a 341.3c/kg yn ôl eu trefn, o'u cymharu a phrisiau'r wythnos flaenorol. Wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafwyd y bwlch mwyaf o 12.7c (neu 3.5%) ym mhrisiau pwysau marw bustych yn ystod yr wythnos yn diweddu 11 Awst. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod mwy o wartheg dethol ar gael.

**Nifer yr holl wartheg a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU**; 230,400 ym mis Gorffennaf, sef 6.9% yn fwy nag ym mis Mehefin. Oddi mewn i'r cynnydd hwn, roedd cyfanswm yr holl wartheg dethol a laddwyd yn 163,300, sef 1.9% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd, lladdwyd 2.2% yn fwy o wartheg dethol, a chafwyd y cynnydd mwyaf, sef 6.5%, yn nifer yr heffrod yn ystod mis Gorffennaf. Er y cafwyd cynnydd hefyd, o 1.7%, yn niferoedd y teirw ifainc mewn cymhariaeth â mis Gorffennaf 2017, lladdwyd 0.7% yn llai o fustych.

Y prif reswm am y cynnydd yn yr holl wartheg a laddwyd ym mis Gorffennaf mewn cymhariaeth â'r mis blaenorol oedd cynnydd sylweddol yn niferoedd y teirw llawn dwf (+28.4%) a buchod (+ 22.0%) a laddwyd. Mae'n bosibl taw'r rheswm am hyn yw bod ffermwyr yn cynllunio ar gyfer prinder porthiant yn ystod y misoedd nesaf.




# Defaid





Mae'r tywydd sych a gafwyd yn ddiweddar wedi cael effaith ar besgi ŵyn tymor newydd. Er bod mwy o dipyn o ŵyn dethol wedi eu lladd yn ystod mis Gorffennaf, mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos fod y niferoedd yn dal i fod bron 3% yn is nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ac mae hyn yn cael effaith ar faint o gig defaid sydd yn cael ei gynhyrchu.

**Prisiau'r farchnad yng Nghymru**; Roedd y dyfynbris ansawdd safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn Tymor Newydd mewn marchnadoedd da byw yn yr wythnos yn diweddu 01 Medi yn 179.0c/kg, sef 11.2c yn is nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ac 2.2c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Mae prisiau'r farchnad am ŵyn tymor newydd wedi sefydlogi yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac un o'r rhesymau am hyn yw bod mwy o alw am yr ŵyn hynny sy'n ateb y gofynion, ar gyfer gŵyl Eid-al-Adha ddiwedd Awst. Yn ystod mis Awst, roedd prisiau mamogiaid difa yn amrywio mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru, ac roedd y pris cyfartalog yn £42.80/pen yn yr wythnos yn diweddu 01 Medi.





Ganol mis Awst, cafwyd cynnydd sylweddol yn niferoedd yr ŵyn tymor newydd a werthwyd mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru mewn cymhariaeth â'r wythnosau blaenorol. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 18 Awst, gwerthwyd 30,117 (30%) yn fwy o ŵyn nag yn yr wythnos flaenorol a 26% yn fwy nag yn 2017, sydd yn adlewyrchu'r ffaith fod gŵyl Eid-al-Adha wedi ei chynnal yn gynharach. Er gwaethaf y cynnydd diweddar, fodd bynnag, mae cyfanswm yr ŵyn tymor newydd a werthwyd hyd yma eleni yn agos i 20% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.





**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; roedd prisiau ŵyn yn 424.8c/kg yn yr wythnos yn diweddu 01 Medi, sef 0.9c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol, ond 0.9c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach. Mae'r fasnach cig oen pwysau marw yn dilyn masnach y farchnad da byw i raddau helaeth a gwelwyd gostyngiad cyson yn y pris cyfartalog ers diwedd Mai.

**Nifer y defaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU**; Lladdwyd 1,031,900 o ŵyn dethol yn ystod mis Gorffennaf, sef 2.8% (30,000) yn llai na'r llynedd, a 18.2% yn fwy nag ym mis Mehefin. Pan ystyriwn saith mis cyntaf eleni, mae nifer yr ŵyn dethol a laddwyd, sef 6,733,700, yn 3.7% yn llai nag yn 2017, ond yn debyg i'r nifer yn 2016. Mae nifer yr ŵyn tymor newydd a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn dal i fod yn is na'r llynedd, ond am fod y glaswellt wedi dechrau tyfu yn ddiweddar gyda newid yn y tywydd, mae'n debygol y bydd mwy o ŵyn yn cael eu gwerthu yn ystod y misoedd nesaf.





Yn ogystal â chynnydd yn nifer yr ŵyn a laddwyd, cafwyd cynnydd hefyd yn niferoedd y mamogiaid difa a hyrddod. Lladdwyd 131,500 ym mis Gorffennaf, sef bron 11% yn fwy nag ym mis Mehefin. Dyma'r nifer fwyaf o famogiaid a hyrddod i gael eu lladd hyd yma eleni – yn fwy na thebyg am fod ffermwyr yn cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf trwy gael gwared ag anifeiliaid nad ydynt yn gynhyrchiol oherwydd ansicrwydd a fydd digon o borthiant ar gael.

# Moch





Am y cafwyd cynnydd yn nifer yr holl foch a laddwyd ym mis Gorffennaf, cynhyrchwyd mwy o borc yn y DU. Ar hyn o bryd rydym yn gweld y bwlch mwyaf ym mhrisiau'r farchnad mewn cymhariaeth â 2017, am fod mwy o foch yn cael eu marchnata.

**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn 152.2c/kg yn yr wythnos yn diweddu 25 Awst, sef 0.1c (1.6%) yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Mae'r pris ar hyn o bryd bron 16c (9.3%) yn is nag oedd yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach. Mae'r bwlch rhwng prisiau eleni a'r llynedd wedi bod yn cynyddu'n gyson oddi ar fis Ionawr ac yn yr wythnos yn diweddu 18 Awst gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf yn y prisiau hyd yma eleni. Er gwaethaf y bwlch mawr yn y prisiau, mae prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) wedi para'n gymharol sefydlog gyda dim ond 5c rhwng y prisiau isaf ac uchaf a gofnodwyd ers troad y flwyddyn.




**Prisiau perchyll ym Mhrydain**; roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn £51.92 yr anifail yn yr wythnos yn diweddu 18 Awst, sef 0.9c (1.6%) yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Mae hyn yn ostyngiad o 9.5% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu'r duedd bresennol ar gyfer moch wedi pesgi. Yn yr wythnos yn diweddu 25 Awst, cafwyd cynnydd o £1.16 (neu 3%) i £37.35 yr anifail ym mhris perchyll 7kg o'i gymharu ag wythnos yn gynharach – sef 11.1% yn is na blwyddyn yn ôl.

**Cyfanswm yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU**; lladdwyd 904,100 o foch ym mis Gorffennaf, sef 6% yn fwy nag yn y mis blaenorol a mis Gorffennaf y llynedd. Am fod mwy o foch wedi eu lladd, cafodd 6% yn fwy o borc ei gynhyrchu yn y DU ym mis Gorffennaf mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Yn ystod saith mis cyntaf eleni, lladdwyd 4% yn fwy o foch nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Lladdwyd 883,600 o foch heb fagu, sef 49,300 (5.9%) yn fwy nag ym mis Gorffennaf y llynedd a 6.2% yn fwy nag ym mis Mehefin.




Yn wahanol i foch heb fagu, cafwyd gostyngiad bychan yn yr hychod a baeddod a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn ystod Gorffennaf; roedd y cyfanswm yn 20,500, sef 1.8% yn llai nag yn y mis blaenorol. Er gwaethaf y gostyngiad, lladdwyd 10.5% yn fwy nag yn y mis cyfatebol flwyddyn ynghynt.

Bydd y cyfnod poeth a sych a gafwyd yn ystod y misoedd diwethaf yn siŵr o gael effaith gynyddol ar y sector amaethyddol, ac awgrymir y gallai pris porc gynyddu. Gall tymheredd uchel amharu ar ffrwythlondeb mochyn a pherfformiad y dorllwyth, yn bennaf am fod arferion bwydo'r hwch yn cael effaith ar gynnyrch llaeth a chyflwr yr hwch. Felly, mae'n bosibl y gwelwn ychydig o gynnydd ym mhrisiau perchyll yn yr hirdymor am fod llai ohonynt yn cyrraedd y farchnad.